3-SET The Third Sector European Team
Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector

# Costau cysylltiedig â'r ESF

Costau Cysylltiedig â Chronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020

## Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Costau cymwys
3. Costau anghymwys
4. Costau uniongyrchol ac anuniongyrchol
5. Costau symlach

## Cyflwyniad

Rhaid i bob cost sy'n gysylltiedig ag unrhyw weithgaredd a gyllidir naill ai gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) neu Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) fod yn gymwys. Mae'n bwysig bod mudiadau sy'n cael arian o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn ymwybodol o'r canllawiau ynghylch cymhwysedd costau.

WWW

**Dolen Allanol**
Gellir cael canllawiau ar gymhwysedd costau ESF ar wefan Llywodraeth Cymru:
Llywodraeth Cymru - Cymhwysedd Cyllid Strwythurol yr UE

Ceir nifer o ffactorau a fydd yn arwain at ystyried cost yn gymwys neu'n anghymwys. Mae rhai costau bob amser yn anghymwys ac mae eraill yn gymwys dan amgylchiadau penodol yn unig. Efallai y bydd y gallu i ddangos cyswllt uniongyrchol cost â gweithgaredd prosiect hefyd yn dylanwadu ar a fydd yn cael ei hystyried yn gymwys ai peidio e.e. a yw'n cael ei hystyried yn gost 'uniongyrchol' neu'n gost 'anuniongyrchol'.

Mae'n bwysig cofio bod yn rhaid i bob cost a hawlir fod yn unol â'r rheini a gytunwyd yn eich cytundeb cyllido gwreiddiol â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), Corff Cyfryngol neu fuddiolwr Arweiniol.

# Costau cymwys

Rhaid i bob cost sy'n cyfrannu at gyfanswm cost eich prosiect fod yn gostau cymwys, waeth a ydynt yn cael eu hystyried yn 'uniongyrchol' neu'n 'anuniongyrchol'; neu waeth a ydynt yn rhan o'ch cyfraniad arian cyfatebol ai peidio.

I fod yn gymwys rhaid i gost fod wedi'i hysgwyddo a'i thalu o fewn oes eich prosiect.



Llun: Cyfrifo costau

Mewn rhai achosion, efallai y bydd yn bosibl cael cymeradwyaeth ôl-weithredol o gostau ond byddai'r rhain yn cael eu hystyried fesul achos. Dylech hefyd geisio am arweiniad a chymeradwyaeth WEFO, Corff Cyfryngol neu fuddiolwr Arweiniol cyn ysgwyddo unrhyw gostau y tu allan i oes eich prosiect.

Rhaid i bob prosiect gadw at y rheol 'costau real', sy'n golygu ac eithrio costau dibrisiant a chyfraniadau o fath arall gan drydydd partïon, rhaid i bob cost fod y costau gwirioneddol a ysgwyddwyd ac a dalwyd gan y prosiect. Rhaid i'r holl gostau gael eu cefnogi gan drywydd archwilio llawn ac eglur.

Rhaid i bob cost gael ei hystyried yn **angenrheidiol** i gynnal eich prosiect a rhoi gwerth clir am arian. Rhaid darparu trywyddion archwilio i ddangos sut y mae hyn yn cael ei sicrhau.

Rhaid i bob cost a hawlir ddefnyddio'ch arferion cyfrifyddu arferol, ni ddylech newid eich polisïau na'ch arferion cyfrifyddu arferol dim ond am fod eich prosiect yn cael ei ariannu'n rhannol gan gyllid Ewropeaidd. Rhaid i bob cost a ysgwyddwyd gynnwys trywydd archwilio llawn o'r adeg y mae'n cael ei hysgwyddo i'r adeg y mae'n gadael eich cyfrif banc.

**Dolen Allanol**

Mae'r 'Rheolau cymhwystra ac amodau ar gyfer cael cymorth gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020' yn rhoi canllawiau clir ar ba gostau a ystyrir yn gymwys ac yn anghymwys ac mae'n bwysig bod prosiectau bob amser yn cyfeirio at y fersiwn ddiweddaraf o'r canllawiau hyn.

Llywodraeth Cymru - Cymhwysedd Cyllid Strwythurol yr UE

## Costau anghymwys

Rhaid i fudiadau ddeall mai eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod pob cost a hawlir yn gymwys. Os canfyddir, drwy wiriad neu archwiliad, fod gwariant anghymwys wedi'i hawlio, bydd cyfanswm cost eich prosiect yn cael ei ostwng yn ôl swm y gwariant anghymwys. Felly os dyfernir cyfanswm o £100,000 i'ch prosiect ond rydych yn hawlio £20,000 o gostau anghymwys yn ddamweiniol, bydd dyfarniad eich prosiect i bob pwrpas yn cael ei ostwng i £80,000. Os ydych yn ansicr ynghylch cymhwysedd eich costau, cyfeiriwch at eich llythyr dyfarnu grant neu'ch contract, WEFO, eich Corff Cyfryngol neu'ch buddiolwr Arweiniol. Fel arall, cysylltwch â thîm 3-SET.

## Costau uniongyrchol ac anuniongyrchol

Er mwyn proffilio'ch prosiect a hawlio'ch costau, rhaid rhannu'r holl gostau i ddau gategori: uniongyrchol ac anuniongyrchol.

### Costau uniongyrchol

Mae cost uniongyrchol yn ymwneud yn benodol â chyflawniad gwirioneddol eich prosiect a gyllidir gan yr UE. Mae'n hawdd ei hadnabod, nid oes angen unrhyw fethodoleg dosrannu ac nid oes angen ei rhannu rhwng nifer o wahanol weithgareddau. Dyma rai enghreifftiau o gostau uniongyrchol –

- Staff sy'n gweithio'n uniongyrchol ar y prosiect
- Costau cyfranogwyr
- Cyhoeddusrwydd sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiect

### Costau anuniongyrchol

Cost gymwys y mae'r prosiect yn cael budd ohoni mewn rhyw ffordd ond lle mae gwerth y gost yn anodd meintioli'r union swm sy'n briodoladwy i'ch prosiect. Dyma rai enghreifftiau o gostau anuniongyrchol –

- Rhent adeilad a rennir rhwng nifer o brosiectau
- Biliau cyfleustodau ar gyfer adeilad a rennir rhwng nifer o brosiectau
- Costau llungopïo neu bostio a rennir lle ni ellir adnabod yn glir y gweithgaredd prosiect penodol
- Costau sefydliadol craidd megis cyflogres lle ni all amser penodol a dreulir ar weithgaredd prosiect uniongyrchol gael ei adnabod yn glir drwy ddefnyddio pethau fel taflenni amser

Ni all pennawd cost syrthio i'r ddau gategori o gostau.

Yn anffodus, does dim rhestr hollgynhwysfawr o'r hyn a fyddai'n cyfrif fel cost uniongyrchol neu anuniongyrchol a bydd yna bob amser gostau nad ydynt mor hawdd i'w categoreiddio ag eraill, felly, dylid defnyddio'r tabl rhesymeg canlynol fel canllaw.

<table>
<tr><th colspan="2">Cwestiwn</th><th colspan="2">Ateb</th></tr>
<tr><td rowspan="2">1</td><td rowspan="2">A ellir priodoli'r gost yn uniongyrchol, yn llawn, i un gweithrediad WEFO ('Rhif adnabod achos' WEFO Ar-lein) a lle mae cyswllt uniongyrchol â gweithgareddau cymwys y gweithrediad yn gallu cael ei ddangos neu'n hunanamlwg?</td><td>YDY</td><td>= Costau Uniongyrchol</td></tr>
<tr><td>NAC YDY</td><td>= Ewch i 2</td></tr>
<tr><td rowspan="2">2</td><td rowspan="2">A ellir priodoli'r gost yn uniongyrchol, yn rhannol, i un gweithrediad WEFO - lle mae cyswllt uniongyrchol â gweithgareddau cymwys y gweithrediad yn gallu cael ei ddangos neu'n hunanamlwg - a'r union swm sy'n broiodoladwy i'r gweithrediad penodol yn gallu cael ei gadamhau'n hawdd?</td><td>YDY</td><td>= Costau uniongyrchol (sefyllfa 1 uchod)</td></tr>
<tr><td>NAC YDY</td><td>= Ewch i 3</td></tr>
<tr><td rowspan="2">3</td><td rowspan="2">A ellir priodoli'r gost yn uniongyrchol i grŵp o weithrediadau WEFO, lle mae cyswllt uniongyrchol â gweithgareddau cymwys y gweithrediadau cyfatebool yn gallu cael ei ddangos neu'n hunanamlwg (h.y. mae'r buddion yn cronni i'r grŵp o weithrediadau WEFO yn unig) ond nid yw'r union swm sy'n briodoladwy i bob gweithrediad yn gallu cael ei gadamhau'n hawdd?</td><td>YDY</td><td>= Costau uniongyrchol (sefyllfa 2 uchod)</td></tr>
<tr><td>NAC YDY</td><td>= Ewch i 4</td></tr>
<tr><td rowspan="2">4</td><td rowspan="2">A ellir priodoli'r gost yn uniongyrchol i gynllun Cymru gyfan / prosiectau sy'n gysylltiedig â grŵp, lle y mae'r prosiect(au) yn ardaloedd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cael ei gefnogi/eu cefnogi gan WEFO ond bod ardal y Dwyrain yn cael ei chyllido'n llwyr gan arian cenedlaethol (neu i'r gwrthwyneb)</td><td>YDY</td><td>= Costau uniongyrchol (sefyllfa 3 uchod)</td></tr>
<tr><td>NAC YDY</td><td>= Ewch i 5</td></tr>
<tr><td rowspan="2">5</td><td rowspan="2">Yr holl gostau eraill</td><td colspan="2">= Costau anuniongyrchol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Yn cael ei had-dalu yn ôl cyfradd safonol (cost symlach)</td></tr>
</table>

Daw'r tabl uchod o ddogfen WEFO, '[Rheolau cymhwystra ac amodau ar gyfer cael cymorth o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020]', felly mae wedi'i anelu at y mudiadau hynny sy'n gweithredu fel buddiolwyr arweiniol neu gyd-fuddiolwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda WEFO. Gellir defnyddio'r un rhesymeg sydd yn y tabl mewn unrhyw brosiect sy'n cael arian o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd gan unrhyw fuddiolwr arweiniol arall neu gorff Cyfryngol.

## Costau symlach

Cyfrifir costau symlach yng Nghymru drwy naill ai gyfradd safonol neu gost uned. Cyfeirir atynt weithiau fel Opsiynau Costau Symlach. Cyflwynwyd costau symlach yn rhaglenni 2014 -2020 fel ffordd well o gyfrifo costau prosiectau wrth gymharu ag adennill 'cost real'. Dylent leihau'r tebygolrwydd o wallau a beichiau gweinyddu ac archwilio i brosiectau.

Mae WEFO wedi llunio arweiniad i egluro costau symlach, sydd ar gael yma. Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg bras o'r holl opsiynau ar gyfer costau symlach a ddarperir gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'n bwysig sylwi nad yw'r holl opsiynau hyn ar gael i brosiectau ESF yng Nghymru, felly, wrth gynllunio'ch prosiect, dylech hefyd gyfeirio at y 'Rheolau cymhwystra ac amodau ar gyfer cael cymorth o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020' i sicrhau eich bod yn dilyn y rheolau perthnasol i'ch prosiect chi.

Mae costau symlach yn golygu adennill costau cymwys gan ddefnyddio methodoleg ragddiffiniedig wedi'i seilio ar ganran benodedig o rai costau eraill. Costau symlach yw'r unig ddull sydd ar gael i gyfrifo costau anuniongyrchol.

Rhaid i bob prosiect bennu pa opsiwn ar gyfer costau symlach y byddant yn ei ddefnyddio cyn dechrau unrhyw weithgaredd. Unwaith y mae opsiwn costau symlach wedi'i bennu ni ellir ei newid, felly, mae'n hanfodol dewis yr opsiwn mwyaf priodol.

Nid yw opsiynau costau symlach yn hepgor y rheidrwydd i gadw at yr holl reolau perthnasol Ewropeaidd a chenedlaethol megis cyhoeddusrwydd, caffael cyhoeddus, cyfle cyfartal, amgylchedd cynaliadwy, cymorth gwladwriaethol ac ati.

Dyma rai nodweddion allweddol costau symlach:

**Cefnogi Trydydd Sector Cymru** Third Sector Support Wales

| Rheolau ac Amodau | Costau symlach | Costau real |
|---|---|---|
| Mae'n rhaid i bob eitem gost fod wedi'i chodio'n unigol i brosiect yr UE neu wedi'i chadw ar wahân yn eich system gyfrifyddu | ✗ | ✓ |
| Mae'n rhaid i chi ddarparu rhestr ar ein cyfer o'r costau unigol a ysgwyddwyd ac a dalwyd | ✗ | ✓ |
| Mae'n rhaid i chi allu darparu prawf o daliad ar gyfer pob taliad, megis cyfriflen banc | ✗ | ✓ |
| Mae'n rhaid i chi gadw anfonebau taledig, neu ddogfennau cyfrifyddu cyfatebol, ar gyfer pob taliad unigol | ✗ | ✓ |
| Mae'n rhaid i chi gadw dogfennau gwariant (anfoneb/prawf o dailiadau) nes ein bod ni'n eich hysbysu y gallant gael eu difa, o bosibl am hyd at 10 mlynedd | ✗ | ✓ |
| Byddwn ni, ac o bosibl y CE, yn archwilio ac yn gwirio'r costau yr ydych wedi'u hysgwyddo a'u talu | ✗ | ✓ |
| Mae'n rhaid i bob cost a ysgwyddwyd ac a dalwyd gydymffurfio â'r rheolau ynglŷn â 'chostau real' (rheolau'r CE a Chymru) a nodir yn y ddogfen hon | ✗ | ✓ |
| Rydym ni a sefydliadau'r UE yn cadw'r hawl i archwilio eich cofnodion cyfrifyddu cyffredinol at ddibenion ystadegol, methodolegol neu atal a chanfod twyll | ✓ | ✓ |

Mae'n bwysig deall y bydd rhai costau mewn prosiect yn cael eu had-dalu gan ddefnyddio rheolau 'costau real' tra gall eraill ddefnyddio'r dulliau costau symlach.

## Cyllido yn ôl cyfradd safonol

Mae hyn yn golygu y bydd y costau sy'n perthyn i'r categori costau anuniongyrchol yn cael eu had-dalu yn ôl canran gytunedig o gostau uniongyrchol y prosiect. Mae'r ddau ddull canlynol ar gael ar gyfer cyfradd safonol gytunedig.

## Cyfradd safonol o 15% ar gyfer costau anuniongyrchol

Mae'r gyfradd hon ar gael i bob prosiect ESF ac mae'n golygu y bydd unrhyw gostau anuniongyrchol yn cael eu had-dalu yn ôl y gyfradd gytunedig o 15% o'r costau cyflog staff uniongyrchol (cyflog, cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr).

Costau cyflog staff uniongyrchol y prosiect £50,000 – defnyddir rheolau costau real ar gyfer y rhain. Costau uniongyrchol eraill y prosiect £100,000 - defnyddir rheolau costau real ar gyfer y rhain. Cost anuniongyrchol wedi'i chyfrifo ar 15% o gostau cyflog staff uniongyrchol - £7,500 – defnyddir rheolau costau symlach ar gyfer hon.

## Cyfradd safonol o 25% ar gyfer costau anuniongyrchol (Prosiectau ymchwil, datblygu ac arloesedd yn unig)

Mae'r gyfradd hon ar gael i bob prosiect ymchwil, datblygu ac arloesedd cymwys ac mae'n golygu y bydd unrhyw gostau anuniongyrchol yn cael eu had-dalu yn ôl y gyfradd gytunedig o 25% o'r costau uniongyrchol.

Costau uniongyrchol y prosiect £100,000 – defnyddir rheolau costau real ar gyfer y rhain
Cost anuniongyrchol wedi'i chyfrifo ar 25% - £25,000 – defnyddir rheolau costau symlach ar gyfer hon

Ceir rhai eithriadau yn yr hyn y gellir ei gynnwys yn y cyfrifiad costau uniongyrchol wrth ddefnyddio'r opsiwn 25%, sef –

- Costau isgontractio
- Costau adnoddau a ddarperir gan drydydd partïon nas defnyddir ar safle'r buddiolwr
- Cymorth ariannol i drydydd partïon

Y gyfradd safonol derfynol ar gael i brosiectau ESF yw 40% ar gyfer costau uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mae'r gyfradd safonol hon yn wahanol i'r opsiynau blaenorol gan fod yr holl gostau cymwys (uniongyrchol ac anuniongyrchol) yn cael eu cyfrifo ar 40% o'r costau staff uniongyrchol cymwys a hawlir.

Costau staff uniongyrchol cymwys - £60,000 – defnyddir rheolau costau real ar gyfer y rhain. Holl gostau cymwys eraill y prosiect wedi'u cyfrifo ar 40% - £24,000 – defnyddir rheolau costau symlach ar gyfer y rhain.

## Costau unedau ar gyfer costau staff y prosiect

Byddai cyfradd benodedig fesul awr ar gyfer staff y prosiect yn cael ei nodi yn y llythyr dyfarnu cyllid a byddai'r gyfradd yn cael ei defnyddio wrth gyflwyno hawliadau. Mantais allweddol yr opsiwn hwn yw na fydd cofnodion y gyflogres na chofnodion ariannol, gan gynnwys cyfriflenni banc, sy'n gysylltiedig â chyflogau staff yn cael eu harchwilio ar unrhyw adeg drwy gydol y prosiect.

## Costau unedau a chyfandaliadau

Gall rhai prosiectau hefyd ddefnyddio cyfuniad o gostau unedau a chyfandaliadau a bennir yn llwyr gan berfformiad gweithgareddau neu wrth gyflawni allbynnau neu ganlyniadau.

Er mwyn i brosiectau ddefnyddio'r opsiwn hwn rhaid iddi fod yn bosibl adnabod a diffinio'r canlynol yn hwylus:

- Meintiau disgwyliedig gweithgaredd, allbynnau neu ganlyniadau penodol a fyddai'n golygu bod y prosiect wedi'i gyflenwi'n llwyddiannus; a
- Graddfa costau unedau'r meintiau hynny.

**Dolen Allanol**

Mae arweiniad penodol ar yr opsiwn hwn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru - Canllawiau ar Gyllid Strwythurol yr UE

Gwybodaeth allweddol i'w chofio wrth ddewis opsiwn costau symlach

- Rhaid cytuno ar yr opsiwn costau symlach cyn dechrau unrhyw weithgaredd ar y prosiect
- Ni ellir newid yr opsiwn unwaith y mae gweithgaredd wedi dechrau hyd yn oed os yw'r prosiect ar ei golled yn ariannol
- Rhaid datgan unrhyw gostau anuniongyrchol a gaffaelir a darparu tystiolaeth ar eu cyfer yn unol â rheoliadau caffael
- Ni all prosiect a roddir ar waith yn gyfan gwbl drwy gaffael ddewis cael ei ad-dalu drwy opsiwn costau symlach, ad-delir pob cost drwy'r opsiwn costau real

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â
https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds